OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 883 (Cy. 153)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025

2025 No. 883 (W. 153)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2024 yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

Mae Rhan 4 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodi awdurdod i archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith ("yr awdurdod archwilio") ac ynghylch agweddau penodol ar y broses archwilio. Mae Rhan 5 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Mae Deddf 2024 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd gan awdurdodau cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith a darparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith (fel y'u diffinnir yn adran 124 o'r Ddeddf).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") establishes a unified application and consenting process to enable making and consideration of applications for infrastructure consent. The process applies to the significant infrastructure projects that are specified in Part 1 of the 2024 Act. Broadly, they are energy, transport, waste and water projects.

Part 2 of the 2024 Act contains the requirement for infrastructure consent. Part 3 of the 2024 Act makes provision about applying for infrastructure consent.

Part 4 of the 2024 Act contains provision about appointing an authority to examine applications for infrastructure consent ("the examining authority") and about particular aspects of the examination process. Part 5 of the 2024 Act contains provisions about deciding applications for infrastructure consent.

The 2024 Act enables the Welsh Ministers to make provision for or in connection with the charging of fees by specified public authorities for the performance of an infrastructure consent function and the provision of an infrastructure consent service (as defined in section 124 of the Act).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r canlynol—

- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Weinidogion Cymru (rheoliad 3),
- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdodau cynllunio (rheoliad 4),
- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (rheoliad 5),
- ffioedd am gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir (rheoliad 6),
- ffioedd am arfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir (rheoliad 7),
- ffioedd am hysbysu am gais arfaethedig (rheoliad 8),
- ffioedd am wneud cais (rheoliad 9),
- ffioedd am adroddiad ar yr effaith leol (rheoliad 10),
- ffioedd am adroddiad effaith ar y môr (rheoliad 11),
- ad-dalu ffioedd nas gwariwyd (rheoliad 12),
- ffioedd sy'n daladwy i ymgyngoreion statudol perthnasol ac awdurdodau cynllunio perthnasol am ddarparu gwasanaethau heblaw am wasanaethau cyn gwneud cais (rheoliad 13), a
- ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau perthnasol am geisiadau ar gyfer dileu gofyniad cydsynio a thybio cydsyniadau (rheoliad 14).

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 (O.S. 2025/690) (Cy. 114) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y broses ar gyfer hysbysu cyn gwneud cais, y modd y mae Gweinidogion Cymru i ymdrin â cheisiadau am gydsyniad seilwaith mewn cysylltiad â datblygiad o'r fath a'r broses sydd i'w dilyn ar ôl archwiliad o gais am gydsyniad seilwaith.

These Regulations make provision in relation to the following—

- fees for pre-application services provided by the Welsh Ministers (regulation 3),
- fees for pre-application services provided by planning authorities (regulation 4),
- fees for pre-application services provided by Natural Resources Wales (regulation 5),
- fees for obtaining information about interests in land (regulation 6),
- fees for exercising powers of entry to survey land (regulation 7),
- fees for giving notice of proposed application (regulation 8),
- fees for making an application (regulation 9),
- fees for a local impact report (regulation 10),
- fees for a marine impact report (regulation 11),
- refund of unspent fees (regulation 12),
- fees payable to relevant statutory consultees and relevant planning authorities for providing services other than pre-application services (regulation 13), and
- fees payable to relevant authorities for applications for removing consent requirement and deeming consents (regulation 14).

The Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025 (S.I. 2025/690) (W. 114) make provisions for the process for pre-application notification, the manner in which applications for infrastructure consent in respect of such development are to be dealt with by the Welsh Ministers and the process to be followed following examination of an application for infrastructure consent.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025 (O.S. 2025/692) (Cy. 116) yn ymdrin â'r weithdrefn archwilio sy'n dilyn cais ac yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag awdurdod archwilio, paratoi ar gyfer ceisiadau a'u harchwilio a'r prosesau ar ôl archwiliad.

Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025 (O.S. 2025/691) (Cy. 115) yn gwneud darpariaeth atodol pan fo cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

The Infrastructure Consent (Examination and Decision) (Procedure) (Wales) Regulations 2025 (S.I. 2025/692) (W. 116) deal with the examination procedure which follows an application and make further provision in relation to an examining authority, preparation for and the examination of applications and post-examination processes.

The Infrastructure Consent (Compulsory Acquisition) (Wales) Regulations 2025 (S.I. 2025/691) (W. 115) make supplementary provision where an application for infrastructure consent includes a request to authorise compulsory acquisition of land or an interest in or right over land.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2025 Rhif 883 (Cy. 153)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025

Gwnaed	*16 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*15 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 124(1), (4), (5) a (6) a 141(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 141(3) a (4)(h) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad ar yr effaith leol" ("*local impact report*") yw unrhyw adroddiad ar yr effaith leol sy'n ofynnol o dan adran 36(1) o Ddeddf 2024;

ystyr "adroddiad effaith ar y môr" ("*marine impact report*") yw unrhyw adroddiad effaith ar y môr sy'n ofynnol o dan adran 37(1) a (2) o Ddeddf 2024;

(**1**) 2024 dsc 3.

2025 No. 883 (W. 153)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025

Made	*16 July 2025*
Coming into force	*15 December 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 124(1), (4), (5) and (6) and 141(2) of the Infrastructure (Wales) Act 2024(**1**), make the following Regulations.

In accordance with section 141(3) and (4)(h) of that Act, a draft of this instrument was laid before and approved by resolution of Senedd Cymru.

PART 1

Preliminary

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025 and they come into force on 15 December 2025.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 2024 Act" ("*Deddf 2024*") means the Infrastructure (Wales) Act 2024);

"applicant" ("*ceisydd*") means a person who proposes to make, or has made an application for infrastructure consent;

(**1**) 2024 asc 3.

ystyr "awdurdod cynllunio" ("*planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ar gyfer ardal yng Nghymru y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dechrau ag 1 Ebrill;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 32 o Ddeddf 2024;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n cynnig gwneud cais, neu sydd wedi gwneud cais am gydsyniad seilwaith;

ystyr "cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent*") yw cydsyniad a roddir o dan adran 19 o Ddeddf 2024;

ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024;

ystyr "gwasanaethau cyn gwneud cais" ("*pre-application services*") yw gwasanaethau a ddarperir i berson o dan adran 27 o Ddeddf 2024 at ddiben cynorthwyo'r person i wneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith.

(2) Gweler adran 136 o Ddeddf 2024 mewn perthynas â darpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson neu'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno", "rhoi" neu derm arall).

"application" ("*cais*") means an application for infrastructure consent made under section 32 of the 2024 Act;

"financial year" ("*blwyddyn ariannol*") means any period of 12 months beginning with 1 April;

"infrastructure consent" ("*cydsyniad seilwaith*") means a consent given under section 19 of the 2024 Act;

"local impact report" ("*adroddiad ar yr effaith leol*") means any local impact report required under section 36(1) of the 2024 Act;

"marine impact report" ("*adroddiad effaith ar y môr*") means any marine impact report required under section 37(1) and (2) of the 2024 Act;

"planning authority" ("*awdurdod cynllunio*") means the local planning authority within the meaning given by Part 1 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**) for an area in Wales in which the proposed development is located;

"pre-application services" ("*gwasanaethau cyn gwneud cais*") means services provided to a person under section 27 of the 2024 Act for the purpose of assisting the person in applying for an infrastructure consent order.

(2) See section 136 of the 2024 Act in relation to provision in these Regulations which requires or authorises a person to—

(a) notify another person of something, or

(b) give a document to another person (whether the provision uses the word "serve", "give" or other term).

RHAN 2

Ffioedd am ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais

Ffi am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Weinidogion Cymru

3.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau cyn gwneud cais, rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9), y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

PART 2

Fees for providing pre-application services

Fee for pre-application services provided by the Welsh Ministers

3.—(1) Where the Welsh Ministers provide pre-application services, a fee must be paid to the Welsh Ministers.

(2) Subject to paragraphs (8) and (9), the fee payable under this regulation is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(**1**) 1990 p. 8

(**1**) 1990 c. 8

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar y wefan—

(a) y gwasanaethau cyn gwneud cais y codir ffioedd ar eu cyfer,

(b) y ffioedd sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd, a

(d) y deddfiad y darperir y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol odano.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) y cyhoeddir y ffi sy'n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(5) Yn dilyn archiad am wasanaethau cyn gwneud cais, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu hysbysiad i'r ceisydd sy'n nodi'r ffi sydd i'w thalu am ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(6) Rhaid i'r ceisydd dalu'r ffi i Weinidogion Cymru o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad, ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw yn llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(7) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) adennill unrhyw ffioedd nas talwyd am unrhyw waith a gwblhawyd fel dyled sifil, a

(b) er gwaethaf unrhyw ofyniad i ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gadw'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol yn ôl hyd nes y telir y ffioedd.

(8) Pan fo cost darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn debygol o fod yn fwy na'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hysbysu'r ceisydd bod y gost yn debygol o fod yn fwy na'r ffi,

(b) nodi faint yn fwy na'r ffi y mae'r gost yn debygol o fod, ac

(c) gofyn i'r ceisydd ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau i gadarnhau ei fod yn derbyn bod ffi ychwanegol yn daladwy.

(9) Pan fo ffi ychwanegol yn daladwy o dan baragraff (8), bydd y ffi yn cael ei gweinyddu drwy anfoneb sy'n daladwy gan y ceisydd o fewn 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb.

(3) The Welsh Ministers must ensure that the following information is published on the website—

(a) the pre-application services for which fees are charged,

(b) the fees payable,

(c) the method used to calculate fees, and

(d) the enactment under which the relevant pre-application services are provided.

(4) The Welsh Ministers must ensure that—

(a) the fee payable is published on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in providing the relevant pre-application services, taking one financial year with another.

(5) Following a request for pre-application services, the Welsh Ministers must provide a notice to the applicant setting out the fee to be paid for providing those services.

(6) The applicant must pay the fee to the Welsh Ministers within such period as may be specified in the notice, provided such period is not less than 21 days beginning the day after the date of that notice.

(7) If the applicant fails to pay a fee payable to the Welsh Ministers within the period specified, the Welsh Ministers may—

(a) recover any unpaid fees for any work completed as a civil debt, and

(b) notwithstanding any requirement to provide the relevant pre-application services, withhold the relevant pre-application services until the fees are paid.

(8) Where the cost of providing pre-application services is likely to exceed the fee payable under paragraph (2) of this regulation the Welsh Ministers must—

(a) inform the applicant the cost is likely to exceed the fee,

(b) indicate the amount by which the fee is likely to be exceeded, and

(c) ask the applicant to respond within 14 days to confirm they accept that an additional fee is payable.

(9) Where an additional fee is payable under paragraph (8) the fee will be administered by invoice payable by the applicant within 21 days beginning on the day after the date of the invoice.

(10) Rhaid ad-dalu unrhyw ffi a delir o dan y rheoliad hwn os gwrthodir yr archiad am wasanaethau cyn gwneud cais fel un annilys.

Ffi am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdodau cynllunio

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (7) ac (8), pan fo awdurdod cynllunio yn darparu gwasanaethau cyn gwneud cais, rhaid talu ffi i'r awdurdod hwnnw.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod cynllunio neu ar ei ran.

(3) Rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar ei wefan—

(a) y gwasanaethau cyn gwneud cais y codir ffioedd ar eu cyfer,

(b) y ffi sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd, a

(d) y deddfiad y darperir y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol odano.

(4) Rhaid i'r awdurdod cynllunio—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar ei wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddo wrth ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(5) Yn dilyn archiad am wasanaethau cyn gwneud cais, rhaid i'r awdurdod cynllunio ddarparu hysbysiad i'r ceisydd sy'n nodi'r ffi am ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(6) Rhaid i'r ceisydd dalu'r ffi i'r awdurdod cynllunio o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio, ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw'n llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(7) Pan fo cost darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn debygol o fod yn fwy na'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwn rhaid i'r awdurdod cynllunio—

(a) hysbysu'r ceisydd bod y gost yn debygol o fod yn fwy na'r ffi,

(b) nodi faint yn fwy na'r ffi y mae'r gost yn debygol o fod, ac

(c) gofyn i'r ceisydd ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau i gadarnhau ei fod yn derbyn bod ffi ychwanegol yn daladwy.

(10) Any fee paid under this regulation must be refunded if the request for pre-application services is rejected as invalid.

Fee for pre-application services provided by planning authorities

4.—(1) Subject to paragraphs (7) and (8), where a planning authority provides pre-application services, a fee must be paid to that authority.

(2) The fee payable under this regulation is the amount published on a website maintained by or on behalf of the planning authority.

(3) The relevant planning authority must ensure that the following information is published on their website—

(a) the pre-application services for which fees are charged,

(b) the fee payable,

(c) the method used to calculate fees, and

(d) the enactment under which the relevant pre-application services are provided.

(4) The planning authority must—

(a) publish the fee payable on their website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in providing the relevant pre-application services, taking one financial year with another.

(5) Following a request for pre-application services, the planning authority must provide a notice to the applicant setting out the fee for providing those services.

(6) The applicant must pay the fee to the planning authority within such period as may be specified in the notice provided by the planning authority, provided such period is not less than 21 days beginning the day after the date of that notice.

(7) Where the cost of providing pre-application services is likely to exceed the fee payable under paragraph (2) of this regulation the planning authority must—

(a) inform the applicant the cost is likely to exceed the fee,

(b) indicate the amount by which the fee is likely to be exceeded, and

(c) ask the applicant to respond within 14 days to confirm they accept that an additional fee is payable.

(8) Pan fo ffi ychwanegol yn daladwy o dan baragraff (7), bydd y ffi yn cael ei gweinyddu drwy anfoneb sy'n daladwy gan y ceisydd o fewn 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau y diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb.

(9) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu ffi i'r awdurdod cynllunio o fewn y cyfnod a bennir, caiff yr awdurdod cynllunio—

(a) adennill unrhyw ffioedd nas talwyd am unrhyw waith a gwblhawyd fel dyled sifil, a

(b) er gwaethaf unrhyw ofyniad i ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gadw'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol yn ôl hyd nes y telir y ffioedd.

(10) Rhaid ad-dalu unrhyw ffi a delir o dan y rheoliad hwn os gwrthodir yr archiad am wasanaethau cyn gwneud cais fel un annilys.

Ffi am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (7) ac (8), pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaethau cyn gwneud cais, rhaid talu ffi i Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ar ei ran.

(3) Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar y wefan—

(a) y gwasanaethau cyn gwneud cais y codir ffioedd ar eu cyfer,

(b) y ffioedd sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd, a

(d) y deddfiad y darperir y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol odano.

(4) Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffioedd sy'n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddo wrth ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(5) Yn dilyn archiad am wasanaethau cyn gwneud cais, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu hysbysiad i'r ceisydd sy'n nodi'r ffi am ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(8) Where an additional fee is payable under paragraph (7), the fee will be administered by invoice payable by the applicant within 21 days beginning the day after the date of the invoice.

(9) If the applicant fails to pay a fee to the planning authority within the period specified, the planning authority may—

(a) recover any unpaid fees for any work completed as a civil debt, and

(b) notwithstanding any requirement to provide the relevant pre-application services, withhold the relevant pre-application services until the fees are paid.

(10) Any fee paid under this regulation must be refunded if the request for pre-application services is rejected as invalid.

Fee for pre-application services provided by Natural Resources Wales

5.—(1) Subject to paragraphs (7) and (8), where Natural Resources Wales provides pre-application services, a fee must be paid to Natural Resources Wales.

(2) The fee payable under this regulation is the amount published on a website maintained by or on behalf of Natural Resources Wales.

(3) Natural Resources Wales must ensure that the following information is published on the website—

(a) the pre-application services for which fees are charged,

(b) the fees payable,

(c) the method used to calculate fees, and

(d) the enactment under which the relevant pre-application services are provided.

(4) Natural Resources Wales must—

(a) publish the fees payable on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure that the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in providing the relevant pre-application services, taking one financial year with another.

(5) Following a request for pre-application services, Natural Resources Wales must provide a notice to the applicant setting out the fee for providing those services.

(6) Rhaid i'r ceisydd dalu'r ffioedd i Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw yn llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(7) Pan fo cost darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn debygol o fod yn fwy na'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) hysbysu'r ceisydd bod y gost yn debygol o fod yn fwy na'r ffi,

(b) nodi faint yn fwy na'r ffi y mae'r gost yn debygol o fod, ac

(c) gofyn i'r ceisydd ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau i gadarnhau ei fod yn derbyn bod ffi ychwanegol yn daladwy.

(8) Pan fo ffi ychwanegol yn daladwy o dan baragraff (7), bydd y ffi yn cael ei gweinyddu drwy anfoneb sy'n daladwy o fewn 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau y diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb.

(9) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu ffi i Cyfoeth Naturiol Cymru, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) adennill y ffioedd nas talwyd am unrhyw waith a gwblhawyd oddi wrth y ceisydd fel dyled sifil, a

(b) er gwaethaf unrhyw ofyniad i ddarparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol, gadw'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol yn ôl hyd nes y telir y ffioedd.

(10) Rhaid ad-dalu unrhyw ffi a delir yn unol â'r rheoliad hwn os gwrthodir yr archiad am wasanaethau cyn gwneud cais fel un annilys.

(6) The applicant must pay the fees to Natural Resources Wales within such period as may be specified in the notice provided by Natural Resources Wales, provided such period is not less than 21 days beginning on the day after the date of that notice.

(7) Where the cost of providing pre-application services is likely to exceed the fee payable under paragraph (2) of this regulation Natural Resources Wales must—

(a) inform the applicant the cost is likely to exceed the fee,

(b) indicate the amount by which the cost is likely to be exceeded, and

(c) ask the applicant to respond within 14 days to confirm they accept that an additional fee is payable.

(8) Where an additional fee is payable under paragraph (7), the fee will be administered by an invoice payable within 21 days beginning the day after the date of the invoice.

(9) If the applicant fails to pay a fee to Natural Resources Wales, Natural Resources Wales may—

(a) recover the unpaid fees for any completed work from the applicant as a civil debt, and

(b) notwithstanding any requirement to provide the relevant pre-application services, withhold the relevant pre-application services until the fees are paid.

(10) Any fee paid pursuant to this regulation must be refunded if the request for pre-application services is rejected as invalid.

RHAN 3

Ffioedd am ddarparu gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir ac am arfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir

PART 3

Fees for providing information regarding interests in land and for exercising powers of entry to survey land

Ffi am gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir

6.—(1) Rhaid i geisydd sy'n gwneud archiad i Weinidogion Cymru i awdurdodi cyflwyno hysbysiad am wybodaeth o dan adran 28 o Ddeddf 2024 (cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir), dalu ffi gyda'r archiad.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

Fee for obtaining information about interests in land

6.—(1) An applicant who makes a request to the Welsh Ministers to authorise service of a notice for information under section 28 of the 2024 Act (obtaining information about interests in land), must pay a fee with the request.

(2) The fee payable under paragraph (1) is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ymdrin â'r archiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

Ffi am arfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir

7.—(1) Rhaid i berson sy'n gwneud archiad i Weinidogion Cymru i arfer pŵer o dan adran 125 o Ddeddf 2024 (pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir) gan gynnwys fel y'i cymhwysir gan adran 126(1) o Ddeddf 2024 (pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir: tir y Goron), dalu ffi gyda'r archiad.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ymdrin â'r archiad.

RHAN 4

Ffioedd sy'n daladwy am wneud cais

Ffi am hysbysu am gais arfaethedig i Weinidogion Cymru

8.—(1) Rhaid i geisydd sy'n hysbysu am gais arfaethedig o dan adran 29 o Ddeddf 2024, dalu ffi i Weinidogion Cymru gyda'r hysbysiad.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ymdrin â'r archiad, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee payable on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in dealing with the request referred to in paragraph (1), taking one financial year with another.

Fee for exercising powers of entry to survey land

7.—(1) A person who makes a request to the Welsh Ministers to exercise a power under section 125 of the 2024 Act (powers of entry to survey land) including as applied by section 126(1) of the 2024 Act (powers of entry to survey land: Crown land), must pay a fee with the request.

(2) The fee payable under paragraph (1) is the amount published on a website maintained by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee payable on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in dealing with the request.

PART 4

Fees payable for making an application

Fee for giving notice of proposed application to the Welsh Ministers

8.—(1) An applicant who gives notice of a proposed application under section 29 of the 2024 Act, must pay a fee to the Welsh Ministers with the notice.

(2) The fee payable under paragraph (1) is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee payable on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in dealing with the request, taking one financial year with another.

Ffi am wneud cais

9.—(1) Rhaid i geisydd sy'n gwneud cais dalu ffi i Weinidogion Cymru pan wneir y cais.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar y wefan—

(a) manylion y swyddogaethau y codir y ffi ar eu cyfer,

(b) y ffioedd sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffioedd, a

(d) y deddfiad y darperir y swyddogaethau perthnasol odano.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r ffi ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym.

(5) Mae ffi yn daladwy o dan y rheoliad hwn am y swyddogaethau a ganlyn—

(a) cyflwyno'r cais,

(b) archwilio'r cais,

(c) llunio adroddiad ar yr effaith leol gan yr awdurdod cynllunio,

(d) llunio adroddiad effaith ar y môr gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac

(e) penderfynu'r cais.

Ffi am adroddiad ar yr effaith leol

10.—(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru o dan adran 36(1) o Ddeddf 2024 rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r gyfran o'r ffi y cyfeirir ati yn rheoliad 9 sy'n ymwneud â'r adroddiad ar yr effaith leol i'r awdurdod cynllunio perthnasol ("y ffi am adroddiad ar yr effaith leol").

(2) Oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall â'r awdurdod cynllunio perthnasol, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) talu'r cyfan o'r ffi am adroddiad ar yr effaith leol i'r awdurdod cynllunio perthnasol os yw'r adroddiad ar yr effaith leol yn dod i law erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau a bennir yn yr hysbysiad am gais a dderbynnir a roddir o dan adran 34(2)(a) neu (b) o Ddeddf 2024, neu

(b) talu 50% o'r ffi am adroddiad ar yr effaith leol i'r awdurdod cynllunio perthnasol pan gyflwynir yr adroddiad ar yr effaith leol o

Fee for making an application

9.—(1) An applicant who makes an application must pay a fee to the Welsh Ministers when the application is made.

(2) The fee payable under this regulation is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must ensure that the following information is published on the website—

(a) details of the functions for which the fee is charged,

(b) the fees payable,

(c) the method used to calculate the fees, and

(d) the enactment under which the relevant functions are provided.

(4) The Welsh Ministers must publish the fee on the website no less than one month before the fee comes into force.

(5) A fee is payable under this regulation for the following functions—

(a) submission of the application,

(b) examination of the application,

(c) preparation of a local impact report by the planning authority,

(d) preparation of a marine impact report by Natural Resources Wales, and

(e) determination of the application.

Fee for a local impact report

10.—(1) Where a planning authority submits a local impact report to the Welsh Ministers under section 36(1) of the 2024 Act the Welsh Ministers must pay the portion of the fee referred to in regulation 9 which relates to the local impact report to the relevant planning authority ("the local impact report fee").

(2) Unless the Welsh Ministers otherwise agree with the relevant planning authority, the Welsh Ministers must—

(a) pay the full local impact report fee to the relevant planning authority if the local impact report is received within the deadline for receipt of representations specified in the notice of accepted application given under section 34(2)(a) or (b) of the 2024 Act, or

(b) pay 50% of the local impact report fee to the relevant planning authority where the local impact report is submitted within the period

fewn y cyfnod o ddwy wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau a bennir yn yr hysbysiad am gais a dderbynnir a roddir o dan adran 34(2)(a) neu (b) o Ddeddf 2024.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ad-dalu i'r ceisydd unrhyw ran o'r ffi am adroddiad ar yr effaith leol na chaiff ei thalu i'r awdurdod cynllunio perthnasol, neu

(b) ad-dalu'r ceisydd yn llawn os na dderbynnir y cais neu os caiff ei dynnu'n ôl cyn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol gan yr awdurdod cynllunio perthnasol.

of two weeks after the deadline for receipt of representations specified in the notice of accepted application given under section 34(2)(a) or (b) of the 2024 Act.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) refund the applicant any part of the local impact report fee that is not paid to the relevant planning authority, or

(b) refund the applicant in full if the application is not accepted or is withdrawn before the submission of a local impact report by the relevant planning authority.

Ffi am adroddiad effaith ar y môr

11.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru o dan adran 37(1) neu (2) o Ddeddf 2024 rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r gyfran o'r ffi y cyfeirir ati yn rheoliad 9 sy'n ymwneud â'r adroddiad effaith ar y môr i Cyfoeth Naturiol Cymru ("y ffi am adroddiad effaith ar y môr").

(2) Oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall â Cyfoeth Naturiol Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) talu'r cyfan o'r ffi am adroddiad effaith ar y môr i Cyfoeth Naturiol Cymru os yw'r adroddiad effaith ar y môr yn dod i law erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau a bennir yn yr hysbysiad am gais a dderbynnir a roddir o dan adran 34(2)(b) o Ddeddf 2024, neu erbyn y dyddiad cau a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir o dan adran 37(2) o Ddeddf 2024, neu

(b) talu 50% o'r ffi am adroddiad effaith ar y môr i Cyfoeth Naturiol Cymru pan gyflwynir yr adroddiad effaith ar y môr o fewn y cyfnod o ddwy wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau a bennir yn yr hysbysiad am gais a dderbynnir a roddir o dan adran 34(2)(b) o Ddeddf 2024, neu erbyn y dyddiad cau a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir o dan adran 37(2) o Ddeddf 2024.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ad-dalu i'r ceisydd unrhyw ran o'r ffi am adroddiad effaith ar y môr na chaiff ei thalu i Cyfoeth Naturiol Cymru, neu

(b) ad-dalu'r ceisydd yn llawn os na dderbynnir y cais neu os caiff ei dynnu'n ôl cyn cyflwyno adroddiad effaith ar y môr gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fee for a marine impact report

11.—(1) Where Natural Resources Wales submits a marine impact report to the Welsh Ministers under section 37(1) or (2) of the 2024 Act, the Welsh Ministers must pay the portion of the fee referred to in regulation 9 which relates to the marine impact report to Natural Resources Wales ("the marine impact report fee").

(2) Unless the Welsh Ministers otherwise agree with Natural Resources Wales the Welsh Ministers must—

(a) pay the full marine impact report fee to Natural Resources Wales if the marine impact report is received within the deadline for receipt of representations specified in the notice of accepted application given under section 34(2)(b) of the 2024 Act, or within the deadline specified in a direction given under section 37(2) of the 2024 Act, or

(b) pay 50% of the marine impact report fee to Natural Resources Wales where the marine impact report is submitted within the period of two weeks after the deadline for receipt of representations specified in the notice of accepted application given under section 34(2)(b) of the 2024 Act, or within the deadline specified in a direction given under section 37(2) of the 2024 Act.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) refund the applicant any part of the marine impact report fee that is not paid to Natural Resources Wales, or

(b) refund the applicant in full if the application is not accepted or is withdrawn before the submission of a marine impact report by Natural Resources Wales.

Ad-dalu ffioedd nas gwariwyd

12. Rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd unrhyw ran o'r ffi a dalwyd o dan reoliad 9 nad yw wedi ei gwario ar ôl i'r cais gael ei benderfynu.

Refund of unspent fees

12. The Welsh Ministers must refund to the applicant any part of the fee paid under regulation 9 which has not been spent after the determination of the application.

RHAN 5

Ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau eraill

Ffioedd sy'n daladwy i ymgyngoreion statudol perthnasol ac awdurdodau cynllunio perthnasol am ddarparu gwasanaethau heblaw am wasanaethau cyn gwneud cais

13.—(1) Caiff ymgynghorai statudol perthnasol ac awdurdod cynllunio perthnasol godi ffi am ddarparu gwasanaethau i geisyddion yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i ymgynghorai statudol perthnasol ac awdurdod cynllunio perthnasol y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) gyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar eu gwefan—

(a) y gwasanaethau y codir ffioedd mewn cysylltiad â hwy,

(b) y ffi a godir am y gwasanaethau hynny, ac

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd.

(3) Rhaid i'r ymgynghorai statudol perthnasol a'r awdurdod cynllunio perthnasol—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar eu gwefan heb fod yn llai na mis cyn i'r ffi ddod i rym;

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ddarparu'r gwasanaethau perthnasol gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(4) Rhaid i'r ymgynghorai statudol perthnasol a'r awdurdod cynllunio perthnasol ddarparu hysbysiad sy'n nodi'r ffi sydd i'w thalu gan y ceisydd pan wneir cais am wasanaeth a gyhoeddir ar eu gwefan.

(5) Rhaid i'r ceisydd dalu'r ffioedd i'r ymgynghorai statudol perthnasol neu'r awdurdod cynllunio perthnasol (fel y bo'n briodol) o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw yn llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(6) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu'r ffioedd i'r ymgynghorai statudol perthnasol neu'r awdurdod cynllunio perthnasol (fel y bo'n briodol) o fewn y cyfnod a bennir, caiff yr ymgynghorai statudol perthnasol neu'r awdurdod cynllunio perthnasol—

(a) adennill y ffioedd am unrhyw waith a gwblhawyd oddi wrth y ceisydd fel dyled sifil, a

PART 5

Fees payable for other services

Fees payable to relevant statutory consultees and relevant planning authorities for providing services other than pre-application services

13.—(1) A relevant statutory consultee and a relevant planning authority may charge a fee for providing services to applicants in accordance with this regulation.

(2) A relevant statutory consultee and a relevant planning authority referred to in paragraph (1) must publish the following information on their website—

(a) the services in respect of which fees are charged,

(b) the fee charged for those services, and

(c) the method used to calculate fees.

(3) The relevant statutory consultee and relevant planning authority must—

(a) publish the fee payable on their website no less than one month before the fee comes into force;

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in providing the relevant services taking one financial year with another.

(4) The relevant statutory consultee and relevant planning authority must provide a notice setting out the fee to be paid by the applicant when an application is made for a service published on their website.

(5) The applicant must pay the fees to the relevant statutory consultee or relevant planning authority (as appropriate) within such period as may be specified in the notice referred to in paragraph (4) provided such period is not less than 21 days beginning with the day after the date of that notice.

(6) If the applicant fails to pay the fees to the relevant statutory consultee or relevant planning authority (as appropriate) within the period specified, the relevant statutory consultee or relevant planning authority may—

(a) recover the fees for any completed work from the applicant as a civil debt, and

(b) er gwaethaf unrhyw ofyniad i ddarparu'r gwasanaethau perthnasol, gadw'r gwasanaethau perthnasol yn ôl hyd nes bod y ffioedd wedi eu talu.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "awdurdod cynllunio perthnasol" ("*relevant planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi;

ystyr "gwasanaethau" ("*services*") yw cyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith neu ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith o fewn ystyr adran 124 o Ddeddf 2024;

ystyr "ymgynghorai statudol perthnasol" ("*relevant statutory consultee*") yw ymgynghorai y cyfeirir ato yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025(**1**) pan fo'r prosiect seilwaith arwyddocaol y mae'r cais neu'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef yn dod o fewn categori a nodir yng ngholofn 2 o'r Tabl.

Ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau perthnasol am geisiadau ar gyfer dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau

14.—(1) Caiff awdurdod perthnasol godi ffi ar y ceisydd yn unol â'r rheoliad hwn am—

(a) cydsyniad a ddarperir o dan adran 84(2) o Ddeddf 2024 (dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau), neu

(b) gwasanaeth cydsyniad seilwaith a ddarperir mewn perthynas â'r cydsyniad hwnnw.

(2) Rhaid i awdurdod perthnasol gyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar ei wefan—

(a) y gwasanaethau y codir ffioedd mewn cysylltiad â hwy,

(b) y ffi a godir am y gwasanaethau hynny, ac

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd.

(3) Pan fo ffi yn daladwy gan y ceisydd i'r awdurdod perthnasol, bydd yr awdurdod perthnasol yn rhoi manylion i'r ceisydd am y swm sy'n daladwy.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol—

(a) cyhoeddi'r ffi sy'n daladwy ar ei wefan heb fod yn llai na mis cyn i'r ffi ddod i rym;

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol wrth ddarparu'r gwasanaethau perthnasol gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(**1**) O.S. 2025/690 (Cy. 114).

(b) notwithstanding any requirement to provide the relevant services, withhold the relevant services until the fees are paid.

(7) In this regulation—

"relevant planning authority" ("*awdurdod cynllunio perthnasol*") means the planning authority for the area in which the proposed development is located;

"relevant statutory consultee" ("*ymgynghorai statudol perthnasol"*) means a consultee referred to in column 3 of the Table in the Schedule to the Infrastructure Consent (Pre-Application and Application Procedure and Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2025(**1**) where the significant infrastructure project to which the application or proposed application relates falls within a category set out in column 2 of the Table;

"services" ("*gwasanaethau*") means the performance of an infrastructure consent function or the provision of an infrastructure consent service within the meaning of section 124 of the 2024 Act.

Fees payable to relevant authorities for applications for removing consent requirements and deeming consents

14.—(1) A relevant authority may charge the applicant a fee in accordance with this regulation for—

(a) a consent provided under section 84(2) of the 2024 Act (removing consent requirements and deeming consents), or

(b) an infrastructure consent service provided in relation to that consent.

(2) A relevant authority must publish the following information on their website—

(a) the services in respect of which fees are charged,

(b) the fee charged for those services, and

(c) the method used to calculate fees.

(3) Where a fee is payable by the applicant to the relevant authority, the relevant authority will provide the applicant with details of the amount payable.

(4) A relevant authority must—

(a) publish the fee payable on its website no less than one month before the fee comes into force;

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred in providing the relevant services taking one financial year with another.

(**1**) S.I. 2025/690 (W 114).

(5) Rhaid i'r awdurdod perthnasol ddarparu hysbysiad sy'n nodi'r ffi sydd i'w thalu gan y ceisydd pan wneir cais am wasanaeth a gyhoeddir ar ei wefan.

(6) Rhaid i'r ceisydd dalu'r ffioedd i'r awdurdod perthnasol o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad a ddarperir gan yr awdurdod perthnasol ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw yn llai nag 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(7) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu'r ffioedd i'r awdurdod perthnasol o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (6), caiff yr awdurdod perthnasol—

(a) adennill y ffioedd am unrhyw waith a gwblhawyd oddi wrth y ceisydd fel dyled sifil, a

(b) er gwaethaf unrhyw ofyniad i ddarparu'r gwasanaethau perthnasol, gadw'r gwasanaethau perthnasol yn ôl hyd nes bod y ffioedd wedi eu talu.

(8) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yr un ystyr ag yn adran 84(5) o Ddeddf 2024;

mae i "cydsyniad" ("*consent*") yr un ystyr ag yn adran 84(5) o Ddeddf 2024;

mae i "gwasanaeth cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent service*") yr un ystyr ag yn adran 124(3) o Ddeddf 2024.

(5) The relevant authority must provide a notice setting out the fee to be paid by the applicant when an application is made for a service published on their website.

(6) The applicant must pay the fees to the relevant authority within such period as may be specified in the notice provided by the relevant authority provided such period is not less than 21 days beginning with the day after the date of that notice.

(7) If the applicant fails to pay the fees to the relevant authority within the period specified in the notice referred to in paragraph (6), the relevant authority may—

(a) recover the fees for any completed work from the applicant as a civil debt, and

(b) notwithstanding any requirement to provide the relevant services, withhold the relevant services until the fees are paid.

(8) In this regulation—

"consent" ("*cydsyniad*") has the same meaning as in section 84(5) of the 2024 Act;

"infrastructure consent service" ("*gwasanaeth cydsyniad seilwaith"*) has the same meaning as in section 124(3) of the 2024 Act;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") has the same meaning as in section 84(5) of the 2024 Act.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
16 Gorffennaf 2025

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
16 July 2025

©℔Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39711-6

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/883